



Mae **Dolwyddelan yn ei Blodau** yn ddiolchgar iawn i Bob Borzello o'r Bont Rufeinig am dalu am y cynhwysyddion blodau o dan yr arwyddion Dolwyddelan sydd bob pen i'r pentref. Fe gawson nhw eu gwneud gan Ganolfan Anableddau Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Pinewood, Glan Conwy.

Bu i Shaun a Paul o Res y Tywysog Llywelyn wneud yn siŵr eu bod yn ddigon o ryfeddod dros benwythnos y Pasg, gyda wyau Pasg anferthol yn croesawu pobl i'r pentref.

Mae Shaun a Paul, Jane Oakley a David a Peter Wright (i gyd o Res y Tywysog Llywelyn) wedi cytuno'n hael iawn i dalu am y blodau ac am gynnal a chadw'r cynhwysyddion ger y mynedfeydd. Mae'r cynhwysydd ger y fynedfa Orllewinol er cof am Leila Wright (cyfaill i sawl un yn y pentref), ac mae'r un Dwyreiniol er cof am fab Shaun, Oliver.

Diolch o galon i bawb fu'n rhan o hyn.

Carnifal Dolwyddelan

Y 25ain Fehefin Yn dechrau yn yr ysgol am hanner dydd

GWISG FFANSI

ADLONIAINT

LLUNIAETH YSGAFN

BAND

